Gofynnwch am Deborah Weston
Ein Cyf DW/MCP
Eich Cyf
Ffôn 01633 210631
Rhif Union 01633 210631
DX
E-bost aildrefnu.ysgolion@casnewydd.gov.uk

Gwasanaeth Addysg

Canolfan Ddinesig
Casnewydd
De Cymru
NP20 4UR

22 Ebrill 2024

Annwyl Randdeiliad,

**Cynnig i leihau capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o 378 i 315 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024; ac i ymestyn yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 o fis Medi 2025.**

Mae'r broses ymgynghori statudol lawn bellach wedi dod i ben ar y cynnig ar y cyd gan Gyngor Dinas Casnewydd a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas i leihau capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o 378 i 315 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024; ac i ymestyn yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 o fis Medi 2025.

Ystyriodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ac Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar yr holl safbwyntiau a fynegwyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori ffurfiol a phenderfynwyd bwrw ymlaen â'r cynnig. Felly, cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol ar 11 Rhagfyr 2023 am gyfnod o 40 diwrnod, a daeth i ben ar 19 Ionawr 2024.

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ffurfiol, felly cymerwyd y penderfyniad terfynol gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ac Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar. Rwy'n falch o gadarnhau y bydd y cynnig yn cael ei weithredu fel yr ymgynghorwyd arno ac y manylir arno yn yr hysbysiad statudol, i leihau'r capasiti o fis Medi 2024, ac i ymestyn yr ystod oedran o fis Medi 2025.

Ceir rhagor o wybodaeth ar gael ar wefannau'r Cyngor a'r ysgolion yn:
https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/Malpas-CIW-Consultation.aspx

https://www.malpaschurchprimaryschool.co.uk/school-reorganisation/

Yr eiddoch yn ddiffuant

Sarah Morgan
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd,
Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR

Bronwen Graham
Cadeirydd y Corff Llywodraethol,
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas,
Yewberry Close, Casnewydd, NP20 6WJ